IS-BWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MAWRTH, 5 MAWRTH 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Mackie(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Lancaster a/ac Taylor |

13 : EITHRIO’R CYHOEDD

14 : MATERION CERBYD HACNI / LLOGI PREIFAT

PENDERFYNWYD – Y dylid trin y materion canlynol fel y nodir:

(1) Cais 1

Gofynnwyd i’r is-bwyllgor ystyried cwyn a wnaed yn erbyn gyrrwr gan aelod o’r cyhoedd. Hysbyswyd aelodau bod y teithiwr yn honni bod y gyrwyr wrth iddi fynd i mewn i’r cerbyd wedi ei beio am roi nodyn £20 ffug iddo ar ddiwedd taith flaenorol. Honnwyd bod y gyrwyr yn gweiddi geiriau camdriniol ar y teithiwr a’i fod wedi ei gorfodi mynd allan o'r cerbyd gan ei gadael ar Heol Casnewydd.

Nododd y gyrrwr ei fod yn adnabod enw’r teithiwr. Fe ddywedodd wrth y teithiwr ei bod wedi rhoi £20 ffug iddo y tro diwethaf. Gwrthododd y gyrrwr iddo weiddi neu dynnu'r teithiwr oddi ar y cerbyd.

PENDERFYNWYD – Ni chymerir unrhyw gamau eraill gan nad oedd yn bosib penderfynu bod yr ymddygiad amhriodol yn fwy tebygol ar sail y dystiolaeth yn ôl yr is-bwyllgor

(2) Cais 2

Hysbyswyd yr is-bwyllgor bod euogfarn wedi ei rhoi i yrrwr a phwyntiau wedi eu tynnu oddi arno o ganlyniad i drosedd yrru. Hefyd, methodd y gyrrwr hysbysu’r Awdurdod Trwyddedu am yr euogfarn ar y pryd. Datganwyd yr euogfarn wrth adnewyddu trwydded Cerbyd Hacni/Llogi Preifat y gyrrwr. Clywodd yr is-bwyllgor bod y gyrrwr wedi bod mewn ffrae a gwrthdrawiad â gyrrwr arall. Gadawodd y gyrrwr fan y digwyddiad.

PENDERFYNWYD - Gyrrwr i dderbyn rhybudd ysgrifenedig am droseddau gyrrau methu datgelu’r euogfarn.

(3) Cais 3

Hysbyswyd yr is-bwyllgor bod gyrrwr wedi datgan y cafodd rybudd am guro wrth iddo gyflwyno ffurflen gais. Ni ddatgelwyd y rhybudd ar y pryd. Datganodd y gyrrwr ei fod wedi bod mewn ffrae adyn arall. Teimlodd ei fod yn cael ei fygwth a churodd y dyn arall i amddiffyn ei hun. Dywedodd y gyrrwr nad oedd wedi datgelu’r rhybudd ar y pryd gan nad oedd modd iddo wneud hyn bryd hynny. Wrth ymateb i gwestiynau gan yr is-bwyllgor, cadarnhaodd y gyrrwr nad oedd wedi gwneud unrhyw ymholiadau gyda’r

Awdurdod Trwyddedu o ran adrodd ar faterion o'r fath ac nad oedd yn ymwybodol am y protocol mewn achosion felly.

PENDERFYNWYD – Bod y gyrrwr yn cael rhybudd ysgrifenedig am y curo a methu â datgelu wedyn, yn ogystal â gofyniad ychwanegol bod y gyrrwr yn cwblhau cymhwyster BTEC o fewn 3 mis.

(4) Cais 4

Wedi'i ohirio sine die

(5) Cais 5

Hysbyswyd yr is-bwyllgor bod gyrrwr wedi methu datgelu rhybudd wrth ymgeisio i adnewyddu trwydded. Hysbyswyd yr aelodau nad oedd cof am y digwyddiad dan sylw gan y gyrrwr. Dihunodd yn nalfa'r heddlu gydag anaf i'w ben a thair asen wedi eu torri. Dywedwyd wrth y gyrrwr ei fod wedi cam-drin aelodau o'r gwasanaethau brys oedd yn ceisio ei helpu.

Dywedwyd wrth yr aelodau fod y gyrrwr yn byw mewn llety dros dro ar y pryd oherwydd y chwalwyd ei briodas. Roedd yn dioddef o orbryder ac iselder. Wrth ofyn iddo pam na ddatgelodd y rhybudd, atebodd y gyrrwr ei fod wedi rhoi ei ben yn y tywod' oherwydd y teimlad o gywilydd oedd arno, ac na allai ymdopi â'r broblem ar yr adeg. Fodd bynnag, roedd yn byw yn bresennol mewn cartref newydd ac yn ceisio gwella ei fywyd. Mae wedi bod yn yrrwr tacsi ers 25 mlynedd ac roedd yn dda yn y gwaith hwn.

PENDERFYNWYD – Bod y gyrrwr yn cael rhybudd ysgrifenedig am fethu â datgelu'r rhybudd a gafodd.

(6) Cais 6

PENDERFYNWYD – Gwrthod cais am drwydded Gyrwyr Cerbyd Hacni/Llogi Preifat gan nad oedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded.

(7) Cais 7

PENDERFYNWYD – Gwrthod cais am drwydded Gyrwyr Cerbyd Hacni/Llogi Preifat gan nad oedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.00 pm